



Ein cyf/Our ref: ATISN 11284

8 Mehefin 2017

Annwyl ,

ATISN 11284 PROSIECT DYSGU CYMRAEG YM MHATAGONIA

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 12 Mai 2017 am ddogfennau'n ymwneud â sefydlu prosiect i ddysgu'r Gymraeg ym Mhatagonia, dyddiedig rhwng 1994 a 1997. Mae'r wybodaeth yr ydym wedi gallu dod o hyd iddo wedi'i hamgáu.

Noder bod yr wybodaeth yr ydych yn ceisio wedi bod yn ddarostyngedig i'r polisïau cadw a dinistrio cofnodion a oedd ar waith ar y pryd. Yn ei hanfod mae'r rhain yn sicrhau bod cofnodion dros oedran penodol (sef 7 mlynedd ar hyn o bryd, ond yn debygol o fod yn wahanol o'r blaen) yn cael eu hadolygu a gwneir penderfyniad ynghylch p'un a dylid cadw'r cofnodion hynny a'i harchifo gyda'r Archifau Cenedlaethol, yn Kew yn Llundain, neu eu dinistrio. Oni bai bod yr wybodaeth yn dal yn berthnasol, bod gofyniad cyfreithiol i gadw'r wybodaeth, neu bod angen cadw'r wybodaeth am resymau hanesyddol, mae'r cofnodion yn cael eu dinistrio. Mae'r Archifau Cenedlaethol yn darparu canllaw sylfaenol ar bolisïau cadw a dinistrio ar gyfer adrannau Llywodraeth <http://www.nationalarchives.gov.uk/information-management/manage-information/policy-process/disposal/>

Os ydych yn anfon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

neu drwy e-bostio: FreedomOfInformationOfficer@cymru.gsi.gov.uk

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir